
# EGWYDDORION ARFER DA WRTH ADDASU CAPELI AC EGLWYSI SEGUR YNG NGWYNEDD






CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Cyflwyniad

### Cefndir Hanesyddol

Dechreuodd Anghydffurfiaeth yng Nghymru yn yr ail ganrif ar bymtheg pan sefydlwyd y capel cyntaf yn 1649 ar benrhyn Gŵyr.

Dal i dyfu wnaeth y symudiad, gan gael ei draed dano yn ystod y ddwy ganrif ddilynol. Er mwyn gwneud lle i'r gwasanaethau codwyd nifer o gapeli a pharodd hyn hyd at y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafwyd y diwygiad crefyddol diwethaf yn 1904 – 05 pan godwyd nifer fawr o gapeli newydd ac, yn bwysicach, pan ailgodwyd nifer fawr o gapeli oedd eisoes yn sefyll. Dyma pam, pan fyddwn yn edrych ar gapeli, y gwelwn, yn amlach na pheidio ddyddiad yn mynd yn ôl i flynyddoedd cynnar 1900. Prin iawn yw'r capeli hynny sy'n mynd yn ôl i amseroedd cynt. Nid ydynt, gan mwyaf, wedi'u haddasu ond maent, yn ddieithriad, yn rhestredig.

Mae ymwelwyr â gogledd Cymru wastad yn cael eu taro gan y ffaith bod i bob pentref Cymreig, waeth beth i'w ei faint, o leiaf dri neu bedwar capel ac un eglwys.

Yn 1800 roedd oddeutu 1300 o gapeli anghydffurfiol yng Nghymru; erbyn 1850 roedd 3800. Roedd capeli yn agor ar raddfa o un bob wythnos a pharhaodd hyd at yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif; ond erbyn 1915 roedd llai na deg capel yn cael eu codi bob blwyddyn. Ers y cyfnod hwnnw ychydig iawn o gapeli sydd wedi'u codi.

Ar hyn o bryd ceir oddeutu 6200 o fannau addoli anghydffurfiol yng Nghymru

### Y sefyllfa sydd ohoni yng Ngwynedd.

Ers yr Ail Ryfel Byd, mae'r duedd gynharach o godi capeli wedi'i throi ar ei phen yn llwyr. Mae'r cynulleidfaoedd sy'n prinhau, diffyg arian a chostau cynnal wedi gorfodi sawl capel i gau. Aiff nifer fawr o'r rhain ar werth neu cânt eu gadael i ddirywio hyd oni eu bod yn strwythurau peryglus ac yn cael eu dymchwel.

**Fel pob sir arall yng Nghymru, mae gan Wynedd nifer o adeiladau crefyddol ac, o'r rhain, mae 151 yn adeiladau rhestredig (gan gynnwys 59 capel, 69 eglwys a deg neuadd eglwys). Nid oes ffigyrau ar gael ar gyfer rhai segur.**


Daw capeli ar y farchnad yn rheolaidd a bwriad y daflen hon yw rhoi arweiniad i ddarpar brynwyr neu berchenogion capeli neu hyd yn oed eglwysi ar ailddefnyddio neu addasu'r adeiladau hyn i berwyl arall.

**Anelir yr arweiniad hwn yn benodol at gapeli neu eglwysi rhestredig er y bydd yr egwyddorion sylfaenol yn berthnasol i'r rhan fwyaf o addasiadau.**



## Strwythur adeilad nodweddiadol

Fel arfer mae eglwysi yn wynebu o'r dwyrain i'r gorllewin. Nid yw hyn bob tro yn wir am gapeli.





| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|

- Adeilad wedi'i ddylunio'n bensaernïol, capeli fel arfer mewn dull clasurol; eglwysi mewn dull Gothig.
- Adeilad mawr, gall yr ôl-troed fod ag arwynebedd o hyd at 300 metr sgwâr.
- Yn debygol o fod yn adeilad rhestredig.
- Yn strwythurol gadarn – wedi'i godi o garreg
- Waliau solet.
- Lle cynllun agored mawr
- Wedi'i gynnal yn dda fel arfer hyd oni y byddant yn segur
- Mae modd gorchuddio llawr solet o deils neu fflagiau gyda choed
- Gallai lloriau capeli fod ar lethr.
- To llechi
- Mae oriel (os oes un) yn nodi lleoliad rhesymegol ar gyfer llawr cyntaf

- Gwasanaethau sylfaenol yn unig
- Dim draenio
- Perfformiad thermal gwael
- Tueddu i fod yn damp a llaith oherwydd y defnydd ysbeidiol a wneir ohono
- Rhaid cael gwared â nifer fawr o ddodrefn a ffitiadau
- Os yw'n rhestredig, mae angen dyluniad sensitif
- Gallai bod ganddo ffenestri mawr, gallai bod gan eglwysi ffenestri coeth yn wynebu'r dwyrain a'r gorllewin.
- Fawr ddim lle neu dim lle o gwbl y tu allan i'r adeilad
- Problem gyda mynediad
- Gallai fod ganddo fynwent
- Onid oes oriel, bydd y ffenestri'n dal – problem gyda gosod llawr cyntaf.

## Gwahaniaethau rhwng capeli ac eglwysi

### Capel nodweddiadol







Roedd yr holl gapeli wedi'u dylunio i un pwrpas ac, felly, mae eu gosodiad yn tueddu i fod yn un syml. Roeddynt hefyd yn blaen iawn heb fawr ddim addurniadau.
**Roedd y wyneb allanol yn bensaernïol gryf.**
Roedd modd mynd i mewn trwy un neu ddau ddrws ac i mewn i gyntedd. Fel arfer roedd modd mynd i mewn i'r capel trwy un o ddau ddrws, y naill a'r llall bob ochr i'r cyntedd ac yn arwain i lawr y naill ochr i'r seti. Byddai grisiau yn y cyntedd yn arwain i fyny i'r oriel, os oedd un.
Tra byddai gan gapel gwledig, o bosib, le i oddeutu gant o bobl, byddai modd i naw cant o bobl eistedd mewn capel mawr, trefol, oedd ag orielau. Gall y pulpud fod yn y naill leoliad a'r llall fel a ddangosir ac mae'n uwch na lefel y seti.

Mae'r pulpud wedi'i amgylchynu gan y sêt fawr.

Mae'r gwaith coed o safon uchel fel arfer, y rhan helaeth ohono yn ffawydd coch.


Mae'n bosib bod capeli bach ymhell o bobman yn union fel a ddangosir uchod ond bydd gan y mwyafrif festri, neuadd neu ysgol Sul ynghlwm wrthynt a hefyd dc capel ar gyfer y gofalwr. Efallai y cânt eu marchnata fel unedau ar wahân.





Efallai bod y plotiau'n fach ac efallai nad oes modd cael atynt yn hawdd, yn enwedig felly safleoedd trefol. Nid oes gan y rhan fwyaf o gapeli fynwentydd ynghlwm wrthynt.

**Eglwys nodweddiadol**

Yn hanesyddol, codwyd eglwysi o’r dwyrain i’r gorllewin ac, fel arfer, byddai ganddynt fynwent o’u hamgylch gyda honno wedi’i hamgylchynu gan wal y fynwent.  Byddai modd mynd i mewn trwy giât syml neu borth wedi’i gorchuddio, gan ddibynnu ar oed yr adeilad.




Ceir llawer llai o eglwysi Anglicanaidd yng Nghymru na chapeli. Yn 1851 roedd 1,176 o eglwysi o’i gymharu â 2,784 o gapeli.
Mae nifer o eglwysi yn dyddio o’r oesoedd canol neu ynghynt ac, yn ddieithriad, yn rhestredig Graddfa 1.  Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg codwyd nifer o eglwysi newydd gan yr Esgobaethau ar gyfer y cynnydd yn y boblogaeth, yn enwedig felly mewn ardaloedd diwydiannol, trefol.  Mae hyn yn wir am Wynedd; yn sgil datblygiad y chwareli llechi cafwyd cyfnod prysur o godi eglwysi.  Mae llawer o’r gwaith codi hyn yn dilyn ‘patrwm’ penodol – defnyddio dyluniadau eithaf safonol ar gyfer adeiladau sy’n dal nifer wahanol o bobl.

Gan amlaf yr eglwysi trefol bedwaredd ganrif ar bymtheg hyn sy’n mynd yn segur ac yn cael eu rhoi ar werth, o bryd i’w gilydd y mae hyn yn wir am rhai gwledig tebyg.

Efallai y ceid amodau ar y defnydd a wneir o’r adeilad a’r gofynion o ran y mynediad pe bai mynwent ar y tir.  Gallai’r Eglwys yng Nghymru osod cyfamodau penodol ar yr adeilad.

Gall y tu mewn i adeiladau fod yn fawr iawn ac yn fwy heriol i’w haddasu’n sensitif na chapeli.

**Mae’r rhan fwyaf o eglwysi’n adeiladau rhestredig.**

## Egwyddorion arfer da wrth addasu capeli neu eglwysi

## Y Tu Allan i'r Adeilad

1. **Cynnal cymeriad allanol ac edrychiad yr adeilad.** Rhaid i eglwys neu gapel arddangos ei ddefnydd gwreiddiol yn glir. Gan eu bod wedi'u codi yn ôl dull clasurol neu Gothig penodol, mae'n bwysig na chollir dim o hyn. Peidiwch â chreu agoriadau ychwanegol onid yw'n wirioneddol angenrheidiol. Sicrhewch eich bod, bob tro, yn gwneud defnydd o ddrysau a ffenestri sydd eisoes yno. Rhaid cadw ffenestri lliw a goleuadau plwm.

2. **Oherwydd maint yr adeilad fel arfer nid oes raid codi estyniad,** ond os oes raid, dylai fod cyn lleied â phosib a pheidio â hawlio'r strwythur gwreiddiol na thynnu dim oddi wrtho. Rhaid i'r dyluniad gadw'r gwreiddiol mewn cof ond nid yw'n angenrheidiol ei fod yn glynu wrth y dull yn slafaidd.

3. **Dylid parchu llinellau presennol y to;** er enghraifft, ni ddylid ychwanegu corn simnai brics neu gerrig at yr adeilad. Efallai bod yna simnai yno'n barod – dylid defnyddio honno. Onid oes simnai yno dylid defnyddio ffliw dur di-staen, wedi'i pheintio'n llwyd neu'n ddu ac wedi'i rhoi o'r golwg yn ddisylw.

4. **Efallai y byddai raid wrth fwy o olau dydd.** Dylid osgoi defnyddio ffenestri cromen o unrhyw fath a rhaid hyd yn oed osod ffenestri to cadwraethol mewn modd fel eu bod i'w gweld cyn lleied â phosib.

5. **Llenwi drysau a ffenestri.** Os oes rhaid gwneud hyn yna dylid defnyddio gwaith cau cilannog ar y tu allan fel bod amlinelliad y drws neu'r ffenestr yn dal i'w weld. Mae modd hefyd lenwi ffenestri a drysau o'r tu mewn, gan ddefnyddio'r un egwyddor ond gan gadw'r drws neu'r ffenestr yn ei lle.

6. **Fel arfer mae enwau capeli i'w gweld yn amlwg**, un ai ar lechen neu'r enw wedi'i rendro ar y wyneb. Ni ddylid cael gwared â'r gwaith hwn ar unrhyw gyfrif.

7**. Dylai'r holl waliau allanol gadw'r gorffenwaith gwreiddiol** neu gael rhywbeth tebyg yn eu lle. Anaml iawn y mae waliau llachar a gwaith coed allanol yn mynd law yn llaw yn foddhaol a byddant yn tynnu oddi ar gymeriad yr adeilad.

8. Dylai **ffenestri a drysau newydd** gadw dyluniad yr adeilad gwreiddiol mewn cof ac yn gymesur yn ôl graddfa'r adeilad. Dylid eu gosod fel nad ydynt yn gwrthdaro â phatrwm presennol yr agoriadau.

9. Rhaid cadw **nodweddion allanol, megis giatiau a rheiliau** sydd yng nghwrtil yr adeilad.

10. Dylid osgoi **codi modurdai a siediau** neu nodweddion eraill yn y cwrtil os yw hynny'n bosib. Os nad oes modd osgoi hyn, dylid eu gosod mor gynnil â phosib oddi wrth yr adeilad.

## Y Tu Mewn i'r Adeilad.

1. **Ceisiwch gadw cymaint o'r ystafelloedd ag sy'n bosib** heb ddinistrio eu ffurf gwreiddiol. Gan amlaf mae capeli ac eglwysi ar ffurf cynllun agored gydag ychydig o ystafelloedd ategol bychain – hwn ddylai'r egwyddor fod i'ch arwain.

2. **Ceisiwch gadw'r cyntedd gwreiddiol**, os oes un, gan y bydd yn cyflawni ei bwrpas gwreiddiol fel man defnyddiol wrth symud o'r tu allan i'r tu mewn ac yn cynorthwyo i ynysu'r adeilad rhag y tywydd.

3. **Dylid gwneud pob ymdrech i gadw grisiau gwreiddiol** yn eu lle. Mae'r un yn wir am orielau

4. Dylid cadw **ffitiadau gwreiddiol megis seti, goleuadau ac ati** cymaint â phosib neu eu hailddefnyddio mewn sefyllfaoedd eraill. Yn anffodus, bydd raid tynnu rhai allan o'r adeilad.

5. **Gall gosod llawr cyntaf fod yn dechnegol heriol.** Os bydd oriel, bydd yn ei gwneud yn haws ei osod ac efallai y gellid defnyddio'r cynheiliaid i ddal y llawr newydd i fyny. Rhaid ceisio difrodi'r waliau allanol cyn lleied â phosib. Fel arfer mae'n well peidio â chynnal lloriau rhyngol oddi ar y waliau allanol a defnyddio, yn hytrach, drefniant yn sefyll ar ei ben ei hun gan ddefnyddio colofnau annibynnol.

Onid oes oriel bydd y ffenestri'n tueddu i fod yn hir ac, fel arfer, yn torri ar drws leoliad y llawr rhyngol. Mae hyn yn arwain at broblem o guddio strwythur y llawr oddi wrth y tu allan a hefyd bydd angen gosod gwaith atal tân digonol rhag i fflamau ledu i fyny.

6. **Y nenfwd coeth yw'r nodwedd fewnol bwysicaf yn y rhan fwyaf o gapeli,** rhaid cadw hwn, boed yn y golwg fel nodwedd neu'n guddiedig dan nenfwd crog. Mae hi wastad yn well cadw'r nenfwd yn y golwg. Gyda nenfwd crog bydd raid gosod addurniadau i'r nenfwd gwreiddiol a'i ddifrodi.

7. Dylid diogelu a gwarchod **nodweddion mewnol eraill, megis cilfwâu, ffrisiau, cilfachau a sgriniau**. Dylid codi partisiynau yn y fath fodd fel y byddir yn osgoi difrodi'r nodweddion hyn.

8. Dylai **gorffenwaith a ffitiadau** fod yn briodol ac yn cyd-fynd â'r cyffiniau.

---

Cyfeiriadau


- 'Capeli yng Nghymru – cadwraeth a thrawsnewid' CADW 1999
- 'Change of Use – the conversion of old buildings', Cunnington P, A & C Black .1988
- 'Rehabilitation and Re-use of Old Buildings', Highfield D, Spon. 1987

## Polisiau Cynlluniau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Dylid edrych ar bolisiau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chanlllawiau Cynllunio Atodol (copiau ar y wefan yma) yn ogystal a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, cyn cyflwyno cais.

Hefyd, os bwriedir cyflwyno cais rydym yn annog darpar ymgeiswyr i ddefnyddio'r gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais sydd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Dylid cydymffurfio gyda gofynion y Nodyn Canllaw – Cynnig Cyngor Cyn Cyflwyno cais (ar y wefan) cyn ceisio trefnu apwyntiad i weld Swyddog Cynllunio.